



CIC

Cynhelir cyfarfod nesaf CIC yn Capel Coch nos Wener, Mehefin 9.

ym un cyfarfod arall ac yna trip diwedd tymor i orffen am yr haf.

Banc bwyd

Diolch i bawb sy'n rhoi bwydydd yn y boccs Banc Bwyd yng nghyntedd Capel Coch. Caiff y bwydydd eu hanfon i Fanc Bwyd Caernarfon sy'n gwasanaethu'r dref a'r ardal gyfagos.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Dydd Sul, Mai 28: Gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Mererid Mair Williams, Caernarfon.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Mai 28: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mai 21

5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mai 28

5.00 p.m. - Y Parchg Mererid Williams

Mehefin 4 - Y Sulgwyn

3.30 p.m. - Y Gweinidog

Mehefin 11

5.00 p.m. - Mr Glyn Owen

REHOBOTH
Dydd Sul, Mai 28: Nid oes oedfa.

BETHLEHEM

Dydd Iau, Mai 25: Bwrlwm am 2.15 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 28: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch; a gwasanaethir yn yr oedfa am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL

Dydd Llun, Mai 22: Te y Dosbarth |Gwau am 2.30 o'r gloch.

Nos Wener, Mai 26: Dwylo Pysur am 6.30 o'r gloch.

Dydd Sul, Mai 28: Cynhelir yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch; a gwasanaethir yn yr oedfa am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE

Dydd Llun, Mai 22: Ymddiriedolwyr Efe yn cyfarfod yng Nghapel Caethro am 10.30 o'r gloch.



Y mis nesaf - Llanberis

Mai 21

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Cledwyn Williams

Mai 28

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Mehefin 4 - Y Sulgwyn

10.00 a.m. - Y Parchg R O Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg R O Jones

Mehefin 11

10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog



Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 730: Dydd Sul, 21 Mai, 2017

Dileu'r athrawiaeth?

Pe na fyddwn yn gwybod yn well, gallwn feddwl fod papurau tabloid Llundain yn fwy cyfarwydd â neges y Beibl nag ydym ni aelodau eglwysig.

Yn dilyn marwolaeth y llofrudd Ian Brady ddechrau'r wythnos roedd mwy nag un o benawdau'r papurau hynny'n udo am ei weld yn pydru neu'n llosgi yn uffern. Un peth na ellir ei wadu yw bod rhai o'r papurau hyn yn cael llai o drafferth na'r rhelyw o'n heglwysi i sôn am uffern.

O weld cyn lleied o sylw a roddir i'r lle hwnnw gan y rhan fwyaf o eglwysi, hawdd iawn y gall pobl gael yr argraff nad oes gan y Ffydd Gristnogol na'r Beibl ddim i'w ddweud amdano. Ond y gwir yw bod gan y Beibl, a bod gan yr Arglwydd Iesu Grist ei hun, lawer i'w ddweud am uffern a cholledigaeth.

O bosibl mai un o'r pethau annisgwyl a mwyaf syfrdanol am ddysgeidiaeth yr Arglwydd Iesu Grist yw bod ganddo mewn gwirionedd fwy i'w ddweud am uffern nag am y nefoedd. Ond go brin y byddai neb yn deall hynny o weld mor anfynych y ceir unrhyw gyfeiriad at uffern ymhlith Cristnogion nac yn eu pregethu a'u dysgeidiaeth.

Mae sawl rheswm dros fudandod yr Eglwys ynghylch uffern heddiw. Mae llawer o'i mewn yn gwrthod credu fod y fath beth neu'r fath le'n bod. Mae gan eraill gywilydd o'r ddysgeidiaeth. Mae eraill yn credu'r hyn a ddywed y Beibl ond yn cadw'n dawel am nad oes

ganddynt yr hyder i gyhoeddi nac i drafod rhywbeth mor ddychrynlyd ac mor ddifrifol. Heb os, mae'r dirmyg a anelwyd at bregethwyr tân a brwmstan y gorfennol yn rhan o'r rheswm dros amharodrwydd llawer ohonom i ddweud dim am y pethau hyn heddiw.

Am wahanol resymau, byddai llawer o Gristnogion yn cydymdeimlo â'r hyn a ddywed y diwinydd C.S. Lewis am uffern: 'Nid oes yr un athrawiaeth y byddwn yn fwy parod i'w dileu o'r Ffydd Gristnogol na hon, pe bai'r gallu gennyf i wneud hynny. Ond y mae iddi gefnogaeth lawn yr Ysgrifur, ac yn arbennig felly eiriau ein Harglwydd ei hun. Mae Gwledydd Cred wedi ei harddel erioed; ac mae rheswm o'i phlaid' (allan o *The Problem of Pain*).

Ni allai C.S. Lewis ddileu uffern o'r ddysgeidiaeth Gristnogol; ac ni allwn ninnau. Wrth feddwl am ei chyhoeddi, mae dau gwestiwn, o gael yr atebion cywir iddynt, a allai fod o gymorth mawr. Beth i'w ddweud? A sut i'w ddweud? Beth? Mai uffern a fyddai tynged pob pechadur oni bai am waith achubol Iesu Grist ar Galfaria. Sut? Nid trwy fygwth; nid trwy ddychryn. Ond trwy apelio ar bobl i ffoi at Iesu Grist; trwy bwysio ar bobl i gydio yn yr addewid o'r bywyd tragwyddol a'r nefoedd i bawb sy'n credu ynddo; a thrwy gyhoeddi uwchlaw popeth bod cariad Duw tuag atom ni bechaduriaid yn golygu 'nad yw'n ewyllysio i neb gael ei ddinistrio, ond i bawb ddod i edifeirwch' (2 Pedr:3:9).

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm



'O Dduw, ti yw fy Nuw, fe'th geisaf di; y mae fy enaid yn sychedu amdanat, a'm cnawd yn dihoeni o'th eisiau, fel tir sych a diffaith heb ddŵr. Fel hyn y syllais arnat yn y cysegr, a gweld dy rym a'th ogoniant. Y mae dy ffyddlondeb yn well na bywyd; am hynny bydd fy ngwefusau'n dy foliannu. Fel hyn y byddaf yn dy fendithio trwy fy oes, ac yn codi fy nwylo mewn gweddi yn dy enw. Caf fy nigoni, fel pe ar fêr a braster, a moliannaf di â gwefusau llawen' (Salm 63:1-5).

BEIBL BYW

Heddiw

Gwasanaethir yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch gan Mr Gyn Owen ac yna am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Cledwyn Williams. Bydd yr Ysgol Sul am 11.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Nid yr oedfaon arferol a geri heddiw yn Llanllechid a Thalybint gan fod Cymanfa

Ysgolion Sul Annibynwyr Dosbarth Bangor-Bethesda yng nghapel Carmel, am 10.30 o'r gloch.

Nid oes oedfa yn Nant Peris.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Cymorth Cristnogol

Diolch yn arbennig i bawb a fu'n casglu o ddrws i ddrws yr wythnos ddiwethaf yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol.

Diolch hefyd i bawb a gymerodd ran yn Oedfa Cymorth Cristnogol a gynhaliwyd yng Nghapel Jerusalem, Bethesda nos Sul ddiwethaf. Cafwyd anerchiad gan y Parchg Ddr Elwyn Richards, Caernarfon a chymerwyd rhan gan aelodau eglwysi Dyffryn Ogwen.

Cymanfa

Bydd Annibynwyr Dosbarth Bangor-Bethesda yn cynnal eu Cymanfa Ysgolion Sul yng nghapel Carmel, Llanllechid am 10.30 o'r gloch heddiw. Mrs Helen Williams fydd yr Arweinydd a Mrs Rhian Roberts fydd y Cyfeilydd.

Yn ystod yr wythnos cafodd y plant ddweud eu hadnodau ar gyfer yr arholiad a bydd arddangosfa o waith yr Ysgolion Sul i'w gweld yn ystod y Gymanfa.

Dymunwn yn dda i bawb a fydd yn cymryd rhan heddiw gan ddiolch i bawb hefyd a fu'n paratoi ar gyfer y bore mewn unrhyw ffordd.

Coleg Y Bala

CYRSIAU HAF 2017

CWRs IEUENCTID
COLEG Y BALA

ANHREFN AWST

SO
Souled Out

Gorffennaf 31 - Awst 4
blynyddoedd 7-11

Awst 14 - 17
plant 8-12 oed

Awst 19 - 24
15+ oed
cwrs dwyieithog

I archebu eich lle neu am fwy o fanylion:
colegybala@ebcpcw.org.uk 01678 520565

Coleg Y Bala

Mae'r hysbyseb uchod yn dangos rhai o'r cyrsiau a gynhelir yng Ngholeg y Bala yn ystod yr haf.

Ar gyfer plant 8 i 12 oed – Anrhefn Awst.

Ar gyfer disgyblion iau ysgol uwchradd (Blynyddoedd 7-11) – Cwrs Ieuencid.

Ar gyfer ieuencid dros 15 oed – 'Souled Out'.

Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan Coleg y Bala. Gellir archebu lle ar unrhyw un o'r cyrsiau trwy ffonio'r Coleg ar 01678 520565.

Y Ffordd

Cynhelir cyfarfod nesaf cwrs 'Y Ffordd' yn festri Carmel am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Mehefn 14.

Efe

Ni chynhelir y Cyfarfod Gweddi arferol yfory, ddydd Llun, Mai 22.

Yn lle'r Cyfarfod Gweddi yfory cynhelir Pwyllgor Ymddiriedolwyr Efe yng Nghapel Caecathro am 10.30 o'r gloch. Cawn gyfle yfory i drafod y posibilrwydd cyffrous o fedru hysbysebu am weithiwr newydd llawn amser hyd yn oed trwy ymestyn rhywfaint ar gyfrifoldebau'r swydd.

Y Gemau

Bydd criw o Goleg y Bala yn ymweld â rhai o ysgolion cynradd y fro i gynnal 'Y Gemau' yr haf hwn eto.

Mae Cynllun Efe wedi cynnal sesiynau tebyg dros y blynyddoedd.

Eleni, bydd y gweithgarwch ar thema 'Taith y Llewod' i Seland Newydd.